Beth yw Parc Cenedlaethol?

Gellir ei ddisgrifio fel ardal o dir sydd yn cael ei warchod fel y gall y cyhoedd ei fwynhau.
Prif bwrpas Parciau Cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig yw i warchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt, a treftadaeth diwyllianol yr ardal ac i gynnig cyfleon i fwynhau a deall mwy am yr ardal gan y cyhoedd.

Parciau Cenedlaethol Prydain

Mae yna 15 Parc Cenedlaethol (PC) ym Mhrydain; 3 yng Nghymru, 2 yn yr Alban a 10 yn Lloegr. Nid oes Parciau Cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon.

Cymru- Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro.



Scotland - Loch Laomainn is nan Troisichean (Loch Lommond a'r Trossachs) a'r Mohnaide Ruaid (Cairngorms).

England - Peak District, Lake District, Northumberland, North Yorkshire Moors, Yorkshire Dales, Broads, Exmoor, Dartmoor, New Forest a'r South Downs.

Pa Barc Cenedlaethol yw'r...
Hynaf – Ardal y Peak yw'r hynaf, greuwyd ar yr 17eg o Ebrill 1951.

Ieuengaf - Y South Downs, greuwyd ar yr 1af Ebrill 2010.

Mwyaf - Mohnaide Ruaidhe (Cairngorms) yw'r mwyaf. Mae'n 4,528km²

Lleiaf - Broads – yw'r Parc Cenedlaethol lleiaf. Mae'n 305km²

Uchaf - Cairngorms. Y copa uchaf yw Ben Macdui sydd yn 1,309m. Scafell Pike yw'r uchaf yn Lloegr yn 978m. Copa uchaf Cymru yw'r Wyddfa sydd yn 1,085m

Mwyaf poblog – y South Downs sydd gyda'r dwysedd poblogaeth uchaf gyda 108,000 o bobl yn byw yn yr ardal.

Lleiaf poblog - Northumberland gyda poblogaeth o 2,200.

Mwyaf arfordirol -Arfordir Sir Benfro gyda 418km o arfordir.

Mwyaf Gogleddol - Cairngorms.

Mwyaf Deheuol - Dartmoor.

Mwyaf Dwyrieiniol - Broads.

Mwyaf Gorllewinol – Arfordir Sir Benfro.

Mae gan Barciau Cenedlaethol Prydain wefan sydd gyda deunyddiau addysgiadol arno, a chywsllt i bob PC. Ewch i **www.nationalparks.gov.uk** am fy o wybodaeth.

Rhestr Gwobrau Parciau Cenedlaethol Cymru ..

Rhestr Gwobrau Parciau Cenedlaethol Cymru..
Hynaf – Eryri, greuwyd ar y 18fed o Hydref 1951.

Dilynwyd hwn gan Arfordir Sir Benfro yn 1952 a Bannau Brycheiniog yn 1957.

Mwyaf – Eryri. Mae'n 2,176 km²

Dilynir hwn gan Bannau Brycheiniog sydd yn 1,344km² ac Arfordir Sir Benfro sydd yn 621 km²

Uchaf – Eryri sydd gyda'r copa uchaf – Yr Wyddfa ar 1085m. Copa uchaf Bannau Brycheiniog yw Pen y Fan sydd yn 886m a Moel Cwmcerwyn yw copa uchaf Arfordir Sir Benfro. Mae'n 536m.



Mwyaf Poblog - Bannau Brycheiniog sydd gyda 32,000 o bobl yn byw o fewn ei ffiniau, wedyn Eryri gyda 25,682 ac Arfordir Sir Benfro sydd gyda 22,800. Oherwydd ei faint, Arfordir Sir Benfro sydd gyda'r dwysedd poblogaeth uchaf.

Mwyaf Arfordirol – Arfordir Sir Benfro. Mae ganddo 418km o arfordir. Mae gan Eryri 60km o arfordir ond nid oes gan Bannau Brycheiniog ddim.

Gwlypaf - Eryri yw'r gwlypaf gyda'r Wyddfa yn derbyn 4,343mm o ddyodiad bob blwyddyn a'r dyffrynnoedd odditano yn derbyn hanner hynny. Tua 1000mm mae arfordir Sir Benfro yn ei dderbyn bob blwyddyn.

Parc Cenedlaethol Eryri

Creuwyd Parc Cenedlaethol Eryri yn 1951 a dyma'r mwyaf yng Nghymru gydag arwynebedd o 823 milltir sgwar neu 2,176 kilomedr sgwar.

Ffeithiau cyfym am Eryri

- Yma mae'r Wyddfa, mynydd uchaf Cymru – mae'n 1,085 metr.
- Mae dros 500,000 o bobl yn cyrraedd copa'r Wyddfa bob blwyddyn.
- Mae gan Eryri bedwar mynydd sydd dros 1000m o uchder.
- Mae dros 6 miliwn yn ymweld ag Eryri bob blwyddyn.
- Tua 26,000 yw poblogaeth Eryri
- Mae 60% o boblogaeth Eryri yn siarad Cymraeg
- Gallwch wneud pump siwrne tren stêm yn Eryri.
- Diwydiant pwysicaf Eryri yw twristiaeth.
- Llyn Tegid ger y Bala yw llyn naturiol mwyaf Cymru.
- Daeth y tîm cyntaf i ddringo Everest i Eryri i ymarfer.
- Mae 14% o dai Eryri yn ail gratrefi (Tai Haf)

Ymweld?

Y peth cyntaf y sylwch arno fydd mynyddoedd a bryniau. Mae tua hanner y tir yma dros 300m, gyda'r Wyddfa yn edrych i lawr arnynt. Daw'r enw "**Yr Wyddfa**" o 'gwyddfa' sydd yn golygu 'man claddu', ac yma yn ol chwedlau mae corff Rhita gawr wedi ei gladdu.

Mae mwy i Eryri na mynyddoedd. O'r copaon mae tua 700 cilomedr o afonydd yn llifo trwy ddyffrynoedd dramatig a llynnoedd o bob maint a siap.

Peidiwch ag anghofio bod gan Eryri arfordir hefyd. Tua 140 kilometres o arfordir sydd yn cynnwys trefi a phentrefi glan y môr a milltiroedd o draethau tywodlyd glân. Rhwng y môr a mynydd mae trefi hanesyddol a phentrefi traddodiadol. Mae yma hefyd amrywiaeth o gynefinoedd pob un yn gyfothoeg ei fywyd gwyllt.

Gwasanaeth Addysg Parc Cenedlaethol Eryri

Beth sydd gennym i'w gynnig?

- Rhowch eich cyfeiriad i ni ac fe gewch set o bosteri am ddim.

- Gallwn anfon ein cylchgrawn blynyddol 'Eryri' i chi er ei fod ar gael ar ein gwefan.
- Os ydych yn ymweld, gallwn roi sgwrs i'ch grŵp, neu fynd a chi am dro ar y bryniau.
- ebostiwch **addysg@eryri-npa.gov.uk** am unrhyw un o'r uchod.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100037455, 2009.